OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 3236 (Cy.241)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2005

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *22 Tachwedd 2005* |
| *Yn dod i rym - -* | *24 Tachwedd 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(e) ac (f), 17(1), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**).

Mae wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd fel sy'n ofynnol gan adran 48(4A) o'r Ddeddf honno.

Cafwyd ymgynghori agored a thryloyw â'r cyhoedd yn ystod cyfnod paratoi'r Rheoliadau fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**3**) sy'n pennu egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2005; deuant i rym ar 24 Tachwedd 2005.

### Diwygio Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2005

**2.** Diwygir Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2005(**4**) yn unol â rheoliadau 3 a 4.

(**1**) 1990 p.16; amnewidiwyd adran 1(1) a (2) (diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990; diwygiwyd adran 53(2) gan Atodlen 6 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p. 28) ac O.S. 2004/2990.

(**2**) Trosglwyddwyd Swyddogaethau "the Secretary of State" i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28).

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t. 1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1642/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L245, 29.9.2003, t.4).

(**4**) O.S. 2005/ 2835 (Cy. 200).

**3.** Yn rheoliad 3 (diwygiad o'r diffiniad o “Directive 2000/13/EC” yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Labelu Bwyd 1996(**5**)) mewnosoder ar y diwedd y geiriau “which was itself amended by Commission Directive 2005/63/EC”(**6**).

**4.** Yn yr Atodlen, yn nhestun yr Atodlen 2A newydd sydd i'w mewnosod yn Rheoliadau Labelu Bwyd 1996 (rhestr o gynhwysion sy'n dod o gynhwysion alergenig ac nad yw'r gofynion labelu alergenau yn gymwys iddynt) yng ngholofn 2 yn lle'r geiriau “Fish gelatine used as carrier for vitamins and flavours” rhodder y geiriau “Fish gelatine used as a carrier for vitamin or carotenoid preparations and flavours”.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**).

*D. Elis-Thomas*
22 Tachwedd 2005 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) O.S. 1996/1499; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1998/1398, 2001/1232 (Cy.66), 2004/249 (Cy.26), 2004/3022 (Cy.261), 2005/ 2835 (Cy. 200).
(**6**) OJ Rhif L258, 4.10.2005, t.3.
(**7**) 1998. p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1.** Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2005 sy'n gweithredu yng Nghymru Gyfarwyddeb y Comisiwn 2005/26/EC sy'n llunio rhestr o gynhwysion neu sylweddau bwyd a eithriwyd dros dro o Atodiad IIIa o Gyfarwyddeb 2000/13/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L75, 22.3.2005, t.33). Yn unol â'r amserlen yn y Gyfarwyddeb honno, daw'r Rheoliadau hynny i rym ar 25 Tachwedd 2005. Mae'r Rheoliadau hynny'n rhoi esemptiad nes 25 Tachwedd 2007 o'r gofynion i labelu alergenau a geir yn rheoliad 34B o Reoliadau Labelu Bwyd 1996 yn achos cynhwysion penodol sy'n dod o gynhwysion alergenig. Mae Rheoliadau 1996 yn rhychwantu Prydain Fawr i gyd; mae'r Rheoliadau diwygio hynny'n gymwys o ran Cymru'n unig.

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi ar waith yng Nghymru Gyfarwyddeb y Comisiwn 2005/63/EC sy'n cywiro Cyfarwyddeb 2005/26/EC (OJ Rhif L258, 4.10.2005, t.3).

**3.** Mae'r Rheoliadau hyn—

(a) yn rhoi esemptiad tan 25 Tachwedd 2007 o'r gofynion i labelu alergenau a geir yn rheoliad 34B o Reoliadau 1996 yn achos gelatin pysgod a ddefnyddir fel cariwr paratoadau carotenyn (rheoliad 4);

(b) yn diweddaru'r diffiniad o “Directive 2000/13/EC” (rheoliad 3).

**4.** Ni luniwyd arfarniad rheoliadol manwl ar gyfer yr offeryn hwn, gan na fydd yn effeithio o gwbl ar gostau busnes.